



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn chwilio am lanhawr contract Cyflog Byw i ddarparu gwasanaethau glanhau yng Nghanolfan Naylor Leyland, Rhuthun, i gadw'r adeilad yn lân a chyda deunyddiau digonol cyn ei osod. Bydd hwn yn contract gwasanaeth a bydd yn golygu anfonebu Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych am swm penodol bob mis, yn cynnwys amser llafur a nwyddau glanhau. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Bydd y dyletswyddau'n cynnwys:

- Ymgymryd â dyletswyddau glanhau dyddiol fel a ganlyn – gwagu biniau a chael gwared ar y sbwriel; glanhau'r toiledau; glanhau'r ceginau a gwneud yn siwr bod y ddwy brif ystafell sydd ar gael i'w llogi yn lân a thaclus
- Ymgymryd â dyletswyddau glanhau cyfnodol fel a ganlyn – defnyddio sugnwr llwch ar yr holl lorïau; hel llwch oddi ar y byrddau a'r desgïau (lle bo'n bosibl); hel llwch oddi ar y sil ffenestri; rhoi cadach ar y drysau, sgyrtin, rheiddiaduron ac eitemau eraill wedi'u paentio
- Cofnodi a hysbysu am unrhyw golli neu dorri cyllyll a ffyrc, llestri, dodrefn, offer ac ati, fel y bo'n digwydd
- Cydymffurfio â'r holl ofynion yn ymwneud ag lechyd a Diogelwch fel y nodir o dro i dro yn unol â Pholisi Gweithdrefnau Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, a gofynion cyfreithiol
- Llunio rota glanhau yn amlinellu'r dyletswyddau dyddiol ac wythnosol, a fydd yn cael ei arddangos mewn man amlwg er mwyn galluogi cael adborth priodol gan gwsmeriaid

Anfonwch eich dyfynbris, eich CV a chopi o'ch yswiriant atebolrwydd cyhoeddus at Damon Jones, Gweinyddydd Aelodaeth a Chymorth Busnes CGGSDD, erbyn 3 Gorffennaf fan bellaf, os gwelwch yn dda.

Os oes gennych chi ddiddordeb ymweld â'r safle er mwyn asesu'r amser sy'n ofynnol i gyflawni'r dyletswyddau hyn, mae Damon yn hapus i hwyluso hyn.

Bydd CGGSDD yn fodlon darparu hyfforddiant lechyd a Diogelwch a sesiwn cynefino i'r contractwr sy'n llwyddo i ennill y contract.